# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 10fed o Ebrill 2018 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Presennol:** Cynghorwyr Carys Morgan (Cadeirydd), Wyn Jones, Ruby Williams, Wyn Evans a Barry Owen.

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr  Gerallt Davies, Garym Roberts, Eiddwen Merritt a Jocelyn Andrew.

**Datgelu buddiannau:** Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Mawrth a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

Dim.

**Materion Cynllunio:**

Rhif Cyf. A180263
1 Clos Pentre James, Llwyncelyn
Codi ystafell haul yn y cefn,
Dim gwrthwynebiad.

Rhif Cyf. A180225
Ty Haul, 3 Haulfan, Ffosyffin
Codi estyniad.
Dim gwrthwynebiad.

**Adolygiad o'r Gyllideb**

Derbyniwyd adolygiad o'r gylideb flynyddol hyd at y 9fed o Ebrill 2018.

**Ymgynghoriad Gwasanaethau Gofal**

Darllenwyd lythyr oddiwrth Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn gwahodd aelodau o'r pwyllgor i weithgaredd fydd yn cael ei gynnal yn Neuadd Goffa Felinfach ar 30 o Ebrill, gofynwyd iddynt i roi gwybod i'r clerc os y byddant am fynychu.

**Perchnogion Cŵn Anghyfrifol**

Derbyniwyd lythyr oddiwrth Cyngor Sir Ceredigion yn sôn am broblemau perchnogion â chŵn anghyfrifol a'r effaith y gall hyn i'w

roi i iechyd y cyhoedd. Hoffent gyflwyno cynllun trwyddedu ble fydd y perchnogion yn talu ffi blynyddol am eu hanifail anwes. Paswyd y byddai hyn yn syniad da a gofynwyd i'r clerc i ddanfon llythyr i gefnogi'r cynllun.

**Cais am arian:**

Cafwyd lythyr oddiwrth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn sôn am ei dathliadau eleni o 200 mlwyddiant glaniad 'Cenhadon Neuadd-lwyd', sef David Jones a Thomas Bevan ym Madagascar yn 1818. Gofynwyd am gymorth ariannol tuag at y dathliadau a phenderfynwyd yn unfrydol roi £100 at yr achos.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 8fed o Fai.